
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol: 2016-17 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2017
Cyfeirnod y ddogfen: 340A2017



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Gwilym Bury ac Andy Bruce o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

**Huw Vaughan Thomas**
**Auditor General for Wales**
**Wales Audit Office**
**24 Cathedral Road**
**Cardiff**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 4

Mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus 4

Argymhellion 5

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17 6

## Atodiadau

Atodiad 1 – statws yr adroddiad hwn 14

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 15

Atodiad 3 – argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17 18

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2016-17

1 Wrth bennu ehangder y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd y cyfoeth o wybodaeth a gasglwyd yn sgil archwiliadau ac arolygiadau yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) ei hun i adolygu a gwerthuso. Yn ystod 2016-17, cynhaliom waith asesu gwelliant ym mhob cyngor o dan dair thema: llywodraethu, y defnydd o adnoddau, a chynllunio ac adrodd ar welliannau. Mewn rhai cynghorau, ategwyd y gwaith hwn drwy gynnal archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016-17.

2 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, yn Arddangosyn 1.

## Mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus

3 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, a hynny yn unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017-18.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor â'r heriau o'i flaen, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i agweddau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

5 Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cafwyd nifer o gynigion ar gyfer gwella, ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd yn eu herbyn ac yn erbyn argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) yn rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17

## Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
| --- | --- | --- | --- |
| **Llywodraethu** | | | |
| Mai 2017 | **Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau**<br>Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau. | Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau, ond mae cysondeb asesiadau effaith cydraddoldeb yn amrywio, ac ni cheir digon o dryloywder wrth adrodd am arbedion a geir yn sgil newid gwasanaethau.<br>Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• mae gan y Cyngor fframwaith strategol clir ar gyfer cynllunio a gweithredu newidiadau i wasanaethau;<br>• mae dull 'Tîm Conwy' y Cyngor yn sefydlu dull clir y mae pobl yn ei ddeall ar gyfer trefniadau llywodraethu yn gysylltiedig â newid gwasanaethau;<br>• mae cynghorwyr yn herio achosion busnes ac arfarniadau o opsiynau ar gyfer newid gwasanaethau mewn modd cadarn;<br>• mae gan Gonwy ddull cynhwysfawr o ymgysylltu â rhanddeiliaid, ond mae cysondeb yr asesiadau effaith cydraddoldeb yn amrywio;<br>• mae trefniadau monitro'r Cyngor i asesu effaith newidiadau i wasanaethau yn effeithiol, ond ni cheir digon o dryloywder wrth adrodd am arbedion yn sgil newid gwasanaethau; ac<br>• mae'r Cyngor yn ymroi'n rhagweithiol i adolygu a gwella effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau. | Atgyfnerthu trefniadau llywodraethu drwy:<br>C1 Gellid atgyfnerthu trefniadau llywodraethu'r Cyngor drwy sicrhau cysondeb wrth lunio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2016 | **Llythyr archwilio blynyddol 2015-16**<br>Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau;<br>• mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol; ac<br>• hyd yma, ni nodwyd unrhyw faterion o bwys mewn gwaith ardystio hawliadau a ffurflenni grant a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2016-17 na systemau ariannol allweddol. | Dim |
| Mawrth 2017 | **Cynllunio arbedion**<br>Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer arbedion ariannol, gan gynnwys i ba raddau y mae'n llwyddo i sicrhau'r arbedion angenrheidiol ac a oes ganddo ddulliau cadarn o gynllunio, rheoli a sicrhau arbedion i'r gyllideb, ar gyflymder sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol. | Mae'r diffyg monitro ac adrodd tryloyw ar gyflawniad cynlluniau arbed yn golygu na fydd trefniadau'r Cyngor, o bosib, yn cefnogi cydnerthedd ariannol llawn yn y dyfodol.<br>**Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:**<br>Arbedion a sicrhawyd yn 2015-16<br>• mae'r Cyngor wedi adrodd ei fod wedi cyflawni'r holl arbedion a gynlluniwyd ganddo ar gyfer 2015-16, ond ni alla ddangos bod arbedion unigol wedi'u cyflawni.<br>**Trefniadau cynllunio ariannol**<br>• mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol cadarn ar y cyfan, ond nid yw ei ddefnydd cyfredol o gronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy.<br>**Cynllun Arbedion 2016-17**<br>• mae gan y Cyngor gynlluniau arbed manwl sydd yn seiliedig ar ystyriaeth dda, ond pan na fydd yr arbedion a gynlluniwyd wedi'u cyflawni, ni cheir digon o dryloywder ac atebolrwydd yn gysylltiedig â chamau lliniaru. | C1 Atgyfnerthu trefniadau cynllunio ariannol drwy:<br>• gynnwys cynnydd yn erbyn arbedion a gynlluniwyd mewn adroddiadau monitro cyllidebau; a<br>• datblygu Polisi Cynhyrchu Incwm/ Codi Tâl. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Mehefin 2016 | **Archwiliad cynllun gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** Adolygiad o'r cynlluniau a gyhoeddwyd gan y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella. | Dim |
| Tachwedd 2016 | **Asesiad archwilio perfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** Adolygiad o asesiad cyhoeddedig y Cyngor o'i berfformiad. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliannau. | Dim |
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| Mehefin 2016 | **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) Arolygiad cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu** | Gellir gweld yr adroddiad drwy'r ddolen hon: Arolygiad cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu<br><br>**Crynodeb o'r Canfyddiadau**<br>1. Mae'r Cyngor yn cwblhau 'rhaglen drawsnewid' uchelgeisiol wedi'i dylunio i foderneiddio ei ymagwedd at wasanaethau cymdeithasol a chreu gwasanaeth cydol oes i bobl ag anableddau. Rhan greiddiol o'r rhaglen hon yw canolbwyntio ar wella ansawdd y gofal a'r gefnogaeth i bobl, a thrwy adeiladu gwasanaeth di-dor ar draws grwpiau oedran, mae'n anelu i gefnogi trefniadau i atal ac ymyrryd yn gynnar. O safbwynt ymarferol, bu'n rhaid defnyddio llawer o amser ac egni i newid strwythurau trefniadol i gefnogi'r trawsnewid hwn, ac mae angen gwneud mwy i wireddu'r weledigaeth a'r cymorth i bobl ag anableddau dysgu. | **Argymhellion:**<br>1. Dylai'r awdurdod lleol ddefnyddio ei sgiliau amlwg i ymgysylltu â phobl a gofalwyr i'w cynnwys mewn trafodaeth ynghylch ffurf modelau gwasanaeth yn y dyfodol.<br>2. Dylid datblygu strategaeth comisiynu ar gyfer gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu, mewn partneriaeth â chydweithwyr iechyd, yn seiliedig ar ddadansoddiad eang o angen a chan ganolbwyntio ar ddatrysiadau cydweithredol ac arloesol. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | 2. Roedd strategaeth gomisiynu a ddatblygwyd yn 2009-10 yn anelu i roi arwydd o'r angen am wasanaethau a'r trefniadau i'r datblygu yng Nghonwy dros y 10 mlynedd dilynol. Roedd y strategaeth hon yn cynnwys datganiad diben ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych a'r Bwrdd Iechyd Lleol ar y pryd. Y mae hefyd yn cynnwys trosolwg rhesymol o ffactorau demograffig a phatrwm darpariaeth gwasanaeth ar y pryd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun canlyniadol wedi arwain at ddull cydgysylltiedig â systematig o ddeall anghenion, siapio'r farchnad a datblygu gwasanaethau ataliol. Ceir enghreifftiau sylweddol o waith da ac ardderchog, gan gynnwys datblygu a gweithredu strategaeth llety i bobl ag anableddau dysgu a'r gwaith partneriaeth nodedig â phobl a gofalwyr drwy 'Cyswllt Conwy'. Mae'r Cyngor hefyd wedi estyn at bobl ag anableddau dysgu, yn sail ar gyfer datblygu'r rhaglen drawsnewid. I gefnogi hyn, mae angen pwyslais o'r newydd ar ddadansoddi anghenion, mapio gwasanaethau a datblygu strategaeth gomisiynu newydd sy'n cynnwys amcanion penodol, mesuradwy a chanddynt raddfa amser. | 3. Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei ddull o asesu, cynllunio ac adolygu er mwyn sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu, wrth dderbyn gwasanaeth, yn derbyn cymorth sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad a thwf yn ogystal ag urddas a pharch.<br>4. Dylai'r awdurdod lleol fonitro llwyddiant y trefniadau arwain a llywodraethu yn agos yng nghyswllt trefniadau diogelu rhag colli rhyddid a mesurau Amddiffyn Oedolion. Mewn perthynas â'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, dylid creu cynllun gweithredu ysgrifenedig ar gyfer rheoli'r rhestr aros ar gyfer awdurdodi, gan gynnwys defnyddio offeryn blaenoriaethu cyn gynted ag sy'n bosibl. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | 3. Roedd pobl ag anableddau dysgu fu'n siarad ag arolygwyr yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch eu profiad o ofal a chymorth. Roedd y staff a oedd yn rhoi cymorth iddynt (gan gynnwys rhai sy'n gweithio i'r sector annibynnol neu'r trydydd sector) hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch eu profiadau wrth weithio i'r Cyngor, neu gyda'r Cyngor. Mae gwaith y Cyngor gyda Cyswllt Conwy a'i gefnogaeth wirioneddol ar gyfer eiriolaeth yn dystiolaeth gref o'i ymrwymiad i wrando ar lais pobl a'u gofalwyr. Canfu arolygwyr fod pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth am sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn - gan gynnwys cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg - a'u bod yn ymdrechu'n galed i drin pobl ag urddas a pharch. Roedd gwasanaethau dydd yn rhoi amrywiaeth eang o gyfleoedd i bobl, ac yn disgrifio dull hyblyg o ddarparu cymorth. Ceir gwaith amlddisgyblaeth sylweddol da gyda phartneriaid iechyd ar y rheng flaen. | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
| --- | --- | --- | --- |
| | | 4. Fodd bynnag, mae gwir angen adeiladu ar y dull hwn sy’n seiliedig ar werthoedd a chyflenwi gwasanaeth sy’n canolbwyntio ar ddatblygu, cefnogi a galluogi pobl yn weithredol, gan gynnwys y bobl hynny a chanddynt yr anableddau mwyaf difrifol ac sy’n cyflwyno heriau sylweddol i’r rhai sy’n trefnu ac yn cyflenwi gofal a chymorth. Dyma’r ffordd o sicrhau ffocws gwell ar unigolion a chanlyniadau gwell ar eu cyfer. Dyma’r ffordd hefyd o wireddu nodau strategol y Cyngor i atal ac ymyrryd yn gynnar. I wneud hyn bydd angen i’r Cyngor wella’r ffordd y mae’n cyflenwi’r disgyblaethau hanfodol, sef asesu, cynllunio ac adolygu, i raddau sylweddol. Er bod y sampl o achosion a archwiliwyd gan arolygwyr yn fach, yr oedd yn dystiolaeth o ymagwedd rwtîn at asesu, cynllunio ac adolygu, lle nad oedd digon o bwyslais ar gynlluniau cyflenwi gwasanaeth a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Ymddengys na chafwyd rhyw lawer o sicrwydd ansawdd clir yn ddiweddar yn gysylltiedig â ffeiliau achos. Nid oedd y sylw gan y Cyngor i’r bobl hynny mewn lleoliadau ‘sefydlog’ a diogel - gan gynnwys pobl a chanddynt anableddau mwy difrifol sydd yn llai tebygol o gael eu cynrychioli drwy Gyswllt Conwy - yn teilyngu eu hanghenion. Roedd rhai gofalwyr hefyd yn anfodlon â’r ymateb i’w ceisiadau am gyngor a chymorth - yn enwedig lle’r oedd y ceisiadau hynny’n cael eu trosglwyddo rhwng y naill aelod o staff a’r llall. Ar y cyfan, casglodd arolygwyr na all y Cyngor fod yn hyderus bod pobl yn derbyn yn gyson y cymorth sydd ei angen arnynt yn y man cywir ac ar yr amser cywir. Ni all ychwaith fod yn siŵr ei fod yn sicrhau gwerth am arian o’r gofal a’r cymorth y mae’n ei gomisiynu. | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | 5. Ar y cyfan, mae rheolwyr gofal yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn, a gwelodd arolygwyr enghreifftiau o arfer da gydag unigolion. Mae angen i'r Cyngor wneud mwy i adnabod y rhain, eu hyrwyddo ac ymgorffori'r hyn sydd i'w ddysgu yn ei ddull newydd o sicrhau ansawdd. Dylai hefyd gadw ei drefniadau ar gyfer rheoli ceisiadau am Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) ac adolygu atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion yn ofalus, ac ystyried a yw'r trefniadau arwain a llywodraethu perthnasol ar gyfer y naill agwedd a'r llall yn y strwythur newydd yn sicrhau'r canlyniadau a fwriedir.<br>6. Mae rheolwyr a staff wedi arddangos sgiliau arwain rhagorol wrth ddatblygu a chefnogi Cyswllt Conwy. Mae gan y sefydliad hwn gyrhaeddiad eang, a rhestr bost sydd ymhell y tu hwnt i'r bobl sy'n dod i gyfarfodydd a digwyddiadau eraill rheolaidd. Fe'i defnyddir i annog pobl i fynegi safbwyntiau, i gymryd rhan ac i gyfrannu at waith cynllunio gofal a chymorth, a hyd yn oed at gyflenwi'r gofal a'r cymorth hwnnw. Roedd darparwyr hefyd ar y cyfan yn gwerthfawrogi parodrwydd yr awdurdod i weithio mewn partneriaeth â hwy. Fel tystiolaeth, cyfeiriwyd at ei barodrwydd i beidio llenwi lleoedd gwag nes bod yn hyderus bod y lle hwnnw'n addas i'r tenant neu'r preswylydd newydd. Mae hyn yn gadarnhaol, ond mae angen cyfuno hyn ag ymdrech benderfynol i ganolbwyntio ar ganlyniadau a gwerth am arian ar ôl pennu lleoliad 'sefydlog' i unigolyn. | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | 7. Ni cheir cyd-gynllunio effeithiol ar lefel uwch i adlewyrchu'r gwaith da ar y rheng flaen rhwng y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Nododd uwch swyddogion y Cyngor fod uwch swyddog iechyd sy'n gyfrifol am wasanaethau anableddau dysgu wedi bod yn absennol dros y pedair blynedd diwethaf. Oherwydd hyn, mae hi wedi bod yn anodd iawn mynd ati i gynllunio'n strategol. Yn ddiweddar iawn, lluniodd aelodau'r bartneriaeth anableddau dysgu ranbarthol bapur drafft, Symud Ymlaen Gyda'n Gilydd, a ddrafftiwyd ar eu rhan gan reolwr gweithredol o'r bwrdd iechyd. Nodir cyd-ddyheadau yn y ddogfen hon, ond nid yw'r rhain wedi'u cefnogi gan gyd-ddadansoddiad o anghenion, model comisiynu, trefniadau i gyfuno cyllidebau na darpariaeth gwasanaeth integredig. Er bod y ddogfen hon yn creu cynllun ar gyfer y camau nesaf, roedd hi'n ymddangos nad oedd rhyw lawer o hyder y byddai'n cael ei chymeradwyo ar ffurf drafft terfynol, heb sôn am ei gweithredu. Bydd gan bob un o'r partneriaid yn y rhanbarth, gan gynnwys Gweinidogion a swyddogion o Lywodraeth Cymru, ran i'w chwarae wrth gefnogi ac annog cydweithwyr iechyd i sicrhau'r bartneriaeth â'r awdurdod lleol sydd mor hanfodol er mwyn darparu gofal a chymorth gwell fyth i bobl ag anableddau dysgu. | |

# Atodiad 1

## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych tua'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir fel cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'.

Yn yr asesiad o welliant blynyddol, ystyrir pa mor debygol yw hi y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n llunio'r adroddiad gwella blynyddol, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 o'r Mesur, drwy roi crynodeb o'i waith asesu ac archwilio mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19, sef cyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2

## Llythyr Archwilio Blynyddol

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod | DO16-013 |
| Dyddiad | 5 Rhagfyr 2016 |
| Tudalennau | 1 o 3 |

Y Cynghorydd Dilwyn Roberts – Arweinydd Iwan Davies – Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

Annwyl Gynghorydd Roberts a Mr Davies

### Llythyr Archwilio Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2015-16

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Bu i'r Cyngor gydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am:

- roi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb ei drafodion ac i sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae'n ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol;
- rhoi tystysgrif sy'n cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol Cymru'n paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 30 Medi 2016, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Roedd fy adroddiad am yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 26 Medi 2016 yn nodi'r prif faterion a oedd yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon.

Nid oedd modd i mi roi tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau gan fod cwestiynau gan aelod o'r cyhoedd yn weddill i ymdrin â nhw. Byddaf yn rhoi tystysgrif pan fyddaf wedi cwblhau'r gwaith o ymdrin â'r cwestiynau hyn.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol

Bu i mi ystyried trefniadau'r Cyngor i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol ar sail y gwaith a wnaed i archwilio'r cyfrifon. Rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle na ddangoswyd hyd yma fod y trefniadau hyn yn effeithiol neu feysydd lle byddai modd gwneud gwelliannau.

## Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma i ardystio hawliadau a ffurflenni grantiau wedi tynnu sylw at unrhyw faterion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na'r systemau ariannol allweddol

Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma i ardystio hawliadau a ffurflenni grantiau wedi tynnu sylw at unrhyw faterion sylweddol o ran cyfrifon na systemau ariannol allweddol y Cyngor. Byddaf yn cyhoeddi adroddiad manylach am fy ngwaith ardystio grantiau yn y gwanwyn 2017 ar ôl cwblhau rhaglen waith ardystio'r flwyddyn hon.

Ar hyn o bryd, disgwylir i ffi archwilio ariannol 2015-16 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir



**Derwyn Owen**

**Cyfarwyddwr Ymgysylltu**
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 3

## Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

### Arddangosyn 2: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Awst 2016 | Cydnerthedd Ariannol Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2015-16 | Yn ein hadroddiad ar gyfer 2014-15 (**Cydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru**, Ebrill 2015), gwnaed sawl argymhelliad i awdurdodau lleol. Mae llawer o'r argymhellion hyn yn parhau i fod yn berthnasol ac mae angen i awdurdodau wneud gwaith pellach i ymdrin â hwy yn ystod 2016-17. Yn ogystal â hyn, gwnaed yr argymhellion canlynol yn seiliedig ar ein hadolygiad mwy diweddar:<br>A1 Dylai awdurdodau lleol atgyfnerthu eu trefniadau cynllunio ariannol drwy:<br>• ddatblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'u cynlluniau gwasanaeth a'u blaenoriaethau corfforaethol;<br>• alinio strategaethau eraill allweddol fel cynlluniau rheoli'r gweithlu a rheoli asedau â'r CATC;<br>• datblygu cynlluniau arbed cynhwysfawr aml-flwydd ac ynddynt gostau llawn, sydd yn trafod ac yn sail ar gyfer cyfnod y CATC, nid ar gyfer y gyllideb flynyddol sydd ar ddod yn unig;<br>• rhannu cynigion arbed yn gategorïau fel bo modd monitro'r newid oddi wrth arbedion traddodiadol tuag at arbedion trawsnewidiol dros gyfnod y CATC; a<br>• sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer sicrhau arbedion penodol yn realistig, a bod atebolrwydd dros eu cyflawni wedi'i ddyrannu'n briodol.<br>A2 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu polisïau corfforaethol ar gyfer cynhyrchu incwm a chodi tâl.<br>A3 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cronfeydd wrth gefn, sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig, ac effaith y rhain a'r defnydd ohonynt yn y CATC.<br>A4 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro'r CATC.<br>A5 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau arbed yn cynnwys digon o fanylion er mwyn sicrhau bod aelodau'n deall yn glir yr hyn y bwriedir ei gyflawni drwy'r cynlluniau, a bod modd craffu'n briodol ar y cynlluniau hynny drwy gydol y flwyddyn.<br>A6 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod digon o gapasiti a gallu corfforaethol i gefnogi cyflawniad y cynlluniau arbed yn y CATC ar y cyflymder angenrheidiol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Hydref 2016 | Diogelwch Cymunedol yng Nghymru | Roedd angen i amrywiaeth o randdeiliaid - sef Llywodraeth Cymru, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru, comisiynwyr yr heddlu a throseddu, aelodau bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ac awdurdodau lleol - gymryd camau unigol ac ar y cyd er mwyn ymateb i'r saith argymhelliad yn yr adroddiad hwn:<br>A1 Gwella gwaith cynllunio strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch ar gyfer diogelwch cymunedol yn well drwy gyflwyno strategaeth genedlaethol i ddisodli'r fframwaith cynllunio presennol, a chefnogi hynny â chynlluniau lleol a rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol cytunedig o ran diogelwch cymunedol.<br>A2 Gwella gwaith partneriaeth strategol drwy greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn ffurfiol i ddisodli strwythurau diogelwch cymunedol presennol. Dylai'r byrddau newydd hyn ffurfioli a chyfuno gwaith Llywodraeth Cymru, heddluoedd, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.<br>A3 Gwella gwaith cynllunio drwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n trafod gwaith yr holl bartneriaid, ac yn nodi'n glir sut y gellir cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol, yn lleol ac yn rhanbarthol.<br>A4 Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer ariannu grantiau a symud tuag at gyllidebau cyfun ac iddynt ymrwymiadau ariannu tymor hwy er mwyn helpu cyrff cyflawni i wella gwaith cynllunio prosiectau a'r gweithlu gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol.<br>A5 Sicrhau bod perfformiad o ran diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol ar bob lefel i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; a<br>• sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu.<br>A6 Diwygio'r systemau ar gyfer rheoli diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar roi sicrwydd i'r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn creu canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.<br>A7 Gwella'r dull o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion drwy fyrddau gwasanaeth cyhoeddus wrth:<br>• ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac<br>• adrodd ar berfformiad a gwerthuso effaith. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Tachwedd 2016 | Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm | Gwnaed wyth argymhelliad yr adroddiad hwn, yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu ynghylch chwech ohonynt. Roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru weithredu ynghylch Argymhellion A4 ac A6:<br>A1 Datblygu fframweithiau strategol ar gyfer cyflwyno ac adolygu taliadau, gan greu cysylltiad pendant rhyngddynt â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Corfforaethol.<br>A2 Adolygu'r costau fesul uned a chyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau dewisol er mwyn nodi unrhyw ddiffygion yn glir a, lle bo angen, gosod targedau i wella'r sefyllfa weithredu gyfredol.<br>A3 Defnyddio'r rhestr wirio asesu effaith bob tro wrth ystyried newid taliadau.<br>A5 Canfod cyfleoedd i gaffael cwmnïau o'r sector preifat i gasglu taliadau, er mwyn gwella effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth gasglu incwm.<br>A7 Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, llywodraethu ac atebolrwydd drwy:<br>• adrodd unrhyw newidiadau i daliadau i'r pwyllgor(au) craffu;<br>• gwella gwaith monitro er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith newidiadau i ffioedd a thaliadau ar alwad, a chyflawniad amcanion;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill yn fwy trwyadl; a<br>• darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn hwyluso penderfyniadau cadarn.<br>A8 Gwella'r trefniadau ar gyfer rhagweld incwm o daliadau drwy gynllunio senarios a dadansoddi sensitifrwydd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2017 | Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector | Gwnaed tri argymhelliad yn yr adroddiad hwn, yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu ynghylch dau ohonynt. Roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithredu ynghylch A3:<br>A1 Er mwyn cael y gorau o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol a chyrff y trydydd sector sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i gefnogi eu gwaith â'r trydydd sector. Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff y trydydd sector i ddatblygu eu harferion gwaith, argymhellir y dylai swyddogion awdurdod lleol a'r trydydd sector ddefnyddio'r Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol i:<br>• hunanwerthuso ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac arferion cyfredol o ran y trydydd sector;<br>• canfod lle mae angen gwella'r trefniadau cydweithio; a<br>• drafftio a rhoi cynllun gweithredu ar waith ar y cyd er mwyn ymdrin â'r bylchau a'r gwendidau a welwyd wrth hunanwerthuso.<br>A2 Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael yn gwanio atebolrwydd ac yn cyfyngu'r gallu i graffu'n effeithiol ar weithgarwch a pherfformiad y trydydd sector. Er mwyn atgyfnerthu'r oruchwyliaeth dros y trydydd sector, argymhellir y dylai aelodau etholedig graffu ar y rhestr wirio adolygu a gwblhawyd gan swyddogion, a herio perfformiad swyddogion a'r awdurdod lleol yn rheolaidd wrth ymateb i fylchau a gwendidau. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru